

# RHANBARTH LLAIS POWYS YR HYN RYDYM WEDI'I GLYWED YM MHOWYS



**Ymgysylltu â Ffocws Cymunedol yn Ardal  
Aberhonddu  
Ebrill 2024**

# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

# CYNNWYS

<b>Amdano Llais</b> .....	<b>4</b>
Crynodeb Gweithredol.....	5
Yr hyn a wnaethom .....	9
Yr hyn rydym wedi ei glywed o sgysiau gyda phobl .....	12
Yr hyn a glywsom o'r arolygon .....	32
<b>Diolch</b> .....	<b>44</b>
<b>Adborth</b> .....	<b>44</b>
<b>Manylion Cyswllt</b> .....	<b>44</b>

## AMDANO LLAIS



Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw


Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a



# CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ystod mis Ebrill 2024, ymgysylltodd Llais Powys â chymuned Aberhonddu a'r ardal gyfagos, i ddeall profiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys dulliau amrywiol o ymgysylltu fel arolygon, ymuno â grwpiau a sefydliadau amrywiol ar gyfer trafodaeth wyneb yn wyneb, ymweld â safleoedd lle darperir gwasanaethau iechyd a gofal a siarad â phobl mewn digwyddiadau cymunedol. Fe wnaethon ni hefyd gynnal bore coffi am ddim i bobl ddod draw i sgwrsio gyda ni. Buom yn siarad â phobl o wahanol oedrannau a gydag anghenion iechyd a gofal gwahanol.

## Key findings

- 1. Canmoliaeth i wasanaethau ym Mhowys a thu allan i'r sir.**  
Cawsom adborth cadarnhaol iawn am lawer o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yn lleol yn yr ardal ac mewn ysbytai y tu allan i'r ardal.
- 2. Roedd cyrchu gwasanaethau yn aml yn heriol.**  
Clywsom lawer o sylwadau am yr anhawster i gael mynediad at apwyntiadau ym Mhractis Grŵp Meddygol Aberhonddu. Clywsom hefyd am fethu â chael gwasanaethau deintyddol y GIG; amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio; pryderon ynghylch teithio a chludiant i wasanaethau, yn enwedig i bobl nad oes ganddynt eu cerbyd eu hunain.
- 3. Angen gwell cyfathrebu.**  
Dywedodd pobl wrthym eu bod yn aml yn cael anhawster cael canlyniadau eu profion diagnostig. Clywsom am yr effaith y mae diffyg cyfathrebu yn dilyn atgyfeiriad yn ei chael ar gleifion. Cafwyd sylwadau hefyd am anawsterau o ran rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a chyda chleifion neu eu meddygon teulu. Gwaethygodd y broblem hon wrth gael mynediad at wasanaethau dros y ffin yn Lloegr.

4. **Angen gwell cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles.**  
Clywsom adroddiadau am bobl yn aros am amser hir yn dilyn atgyfeiriad am gwrsela. Dywedodd rhai pobl yr hoffent gael mwy o gymorth allgymorth i'w helpu gartref. Clywsom hefyd am yr effaith y mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn ei chael ar lesiant pobl. Nodwyd gennym fod angen gwell ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ChatHealth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.
5. **Materion gweithlu a chapasiti.**  
Clywsom am yr effaith y mae prinder staff mewn rhai gwasanaethau yn ei chael ar bobl. Roedd y gwasanaethau a amlygwyd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith gofal a gwasanaethau arbenigol fel niwroleg.

## Camau a Gymerwyd

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys i sicrhau eu bod yn deall beth mae pobl yn ei feddwl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu gwneud gwelliannau i wasanaethau lle mae eu hangen.

Ar ôl i ni ddrafftio'r adroddiad yn amlinellu'r hyn a glywsom, fe wnaethom gynnal gweithdy ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor Sir a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Nod y sesiwn oedd amlygu rhai o'r prif themâu, trafod meysydd gwaith sydd eisoes ar y gweill, a nodi ar y cyd rai o'r camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

1. Mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn hybu agwedd dysgu tuag at gwynion a byddent yn annog pobl i gysylltu â'u Timau Cwynion fel y gellir mynd i'r afael â phryderon a materion unigol. Bydd Llais yn sicrhau bod gan ei staff a'i wirfoddolwyr y wybodaeth berthnasol am wasanaethau y gall pobl gael mynediad iddynt a ffyrdd i bobl allu cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r GIG i godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol gyda gwasanaethau.
2. Bydd Tîm Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn trafod adborth o'r adroddiad gyda Phractis Grŵp Meddygol Aberhonddu i gefnogi gwelliant parhaus gwasanaethau. Bydd Llais yn trefnu ymweliad dilynol â'r Feddygfa.
3. Nodwyd bod mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i fod yn her ledled y DU. Mae Porth Mynediad Deintyddol cenedlaethol

newydd yn cael ei sefydlu a fydd yn helpu'r GIG yng Nghymru i ddeall y galw cyffredinol am wasanaethau deintyddol y GIG. Mae Powys wedi'i nodi fel ardal beilot, a disgwylir y lansiad cenedlaethol yn ddiweddarach eleni.

4. Nodwyd sylwadau ynghylch y trothwy oedran ar gyfer UMA. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn bodloni safonau llywodraethu clinigol ac ansawdd perthnasol, a bod staff yn cael eu hyfforddi i ddarparu gofal i bobl 2 oed a hŷn. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd hyfforddiant a chymorth clinigol ar waith i ddarparu gwasanaethau UMA i blant dan 2 oed. Cydnabyddir bod hyn yn golygu y bydd teithio ychwanegol i blant dan 2 oed.
5. Bydd adborth am apwyntiadau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu yn llywio gwaith y Bwrdd Iechyd i ddatblygu Un Pwynt Mynediad ar gyfer apwyntiadau.
6. Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei Gyfarfodydd Comisiynu, Ansawdd ac Adolygu Perfformiad gyda darparwyr gofal eilaidd i rannu'r adborth ynghylch apwyntiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob bwrdd iechyd gyflwyno gwasanaethau Aros yn Iach sy'n cefnogi pobl yn ystod eu hamseroedd aros am driniaeth gofal wedi'i gynllunio.
7. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda darparwyr yn Lloegr i ganfod ffyrdd gwell o rannu gwybodaeth cleifion dros y ffin. Rhaid iddo fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod gofynion diogelu data yn cael eu bodloni a mynd i'r afael â risgiau o rannu gwybodaeth rhwng systemau gwahanol, gan gynnwys mewn perthynas â seiberddiogelwch.
8. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ymgyrch farchnata newydd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ChatHealth i blant a phobl ifanc.
9. Bydd y wybodaeth yn yr adroddiad am Parkinson's yn cael ei rhannu â'r timau Therapiâu ym Mhowys, er mwyn ystyried y posibilrwydd o ehangu cymorth therapi.
10. Bydd adborth am y timau lles mewn ysgolion yn cael ei godi gyda Gwasanaeth Addysg yr Awdurdod Lleol i'w ystyried.
11. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cysylltu â'r Gwasanaeth Addysg ac yn darparu ymateb i Llais ynghylch cau pwll

hydrotherapi Ysgol Penmaes yn Aberhonddu.

12. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi mater cyfathrebu gwael ag uwch dîm arwain Cyngor Sir Powys.

## Casgliad

Darparodd y gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd mewnwelediad gwerthfawr i brofiadau ac anghenion cymuned Aberhonddu o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adborth cadarnhaol am lawer o wasanaethau lleol ac allanol yn amlygu cryfderau'r system bresennol. Fodd bynnag, nodwyd heriau sylweddol hefyd, yn enwedig o ran cael mynediad at wasanaethau, cyfathrebu, cymorth iechyd meddwl, a chapasiti'r gweithlu.

Mae ein canfyddiadau'n tanlinellu'r angen am welliannau wedi'u targedu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys yn hygyrch, yn ymatebol, ac yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Mae'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y gweithdy ar y cyd yn dangos ymdrech ymroddedig i fynd i'r afael â'r heriau hyn a gwella gwasanaethau.

Rydym yn hyderus y bydd y dull cydweithredol a ddefnyddir yn arwain at welliannau ystyrlon yn y meysydd a nodwyd. Bydd ymgysylltu parhaus â'r gymuned a rhanddeiliaid yn hanfodol i fonitro cynnydd a sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn diwallu anghenion trigolion Aberhonddu a'r ardaloedd cyfagos.



## YR HYN A WNAETHOM

Ym Mhowys, ar gyfer ein hymgysylltiad lleol, rydym yn adlewyrchu'r dull 13 ardal a ddefnyddir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys. Mae'r ardaloedd wedi'u canoli o amgylch trefi mwyaf Powys a'u hardaloedd cyfagos. Rydym yn gweithio mewn un ardal ar y tro, fel arfer am tua mis. Nod yr ymgysylltiad yw dal profiad byw pobl o gael mynediad at wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol a/neu eu derbyn. Rydym am gael gwybod am wasanaethau a ddarperir yng Nghymru neu dros y ffin yn Lloegr.

Aberhonddu oedd y bumed ardal lle rydym wedi ymgymryd ag ymgysylltu â ffocws. Roeddem am ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â phobl o bob oed a gyda diddordebau gwahanol a gwrando ar eu barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Gwnaethom gynnal ymchwil i ddarganfod pa weithgareddau fyddai'n digwydd yn yr ardal. Gwnaethom gysylltu â'r Cysylltydd Cymunedol ar gyfer yr ardal i weld pa grwpiau neu weithgareddau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt. Fe wnaethom hefyd ymchwilio i'r hyn y mae sefydliadau'n ei weithredu yn yr ardal fel y gallem ofyn iddynt

**Roedd gennym ddau arolwg ar gael i bobl eu cwblhau – un oedd arolwg cyffredinol i bobl roi sylwadau am unrhyw agwedd ar iechyd neu ofal cymdeithasol a'r llall oedd arolwg am gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Roedd yr arolygon hyn ar gael ar-lein ac ar bapur.**

helpu i godi ymwybyddiaeth o Llais. Darparwyd taflenni a chopïau papur o arolygon i sefydliadau eu rhannu â phobl a oedd yn defnyddio eu gwasanaethau. Gwnaethom hysbysu'r Cyngor Tref a'r Cyngorau Cymuned Lleol a'r Cyngorwyr Sir Lleol y byddem yn gweithio yn yr ardal.

Fe wnaethom hyrwyddo'r hyn yr oeddem yn ei wneud trwy erthygl yn Brecon & Radnor Express. Fe wnaethom recordio fideo byr a gafodd ei rannu ar ein tudalen Facebook. Trwy gydol y mis, gwnaethom rannu negeseuon ar Facebook am y sesiynau ymgysylltu yr oeddem yn eu mynychu.

Am y tro cyntaf, cynhaliom fore coffi lle gallai pobl ddod draw i sgwrsio â ni dros baned a chacen. Roedd hwn yn ddigwyddiad llwyddiannus a phrysur, gydag o leiaf un aelod o'r cyhoedd ar bob bwrdd yn siarad â chynrychiolwyr Llais am yr holl amser.

Roeddem yn gallu trefnu ymweliadau o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad i Adeiladau ac Ymgysylltu ag Unigolion. Roedd hyn yn ein galluogi i siarad â phobl am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn yn y lleoliad y gwnaethom ymweld ag ef a hefyd am wasanaethau eraill a dderbyniwyd. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys safleoedd meddygfeydd Practis Grŵp Meddygol Aberhonddu (Tŷ Henry Vaughan a Pontsenni) ac Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu. Fe wnaethom hefyd gwrdd â Rheolwr cartref nyrsio a phreswyl ar gyfer pobl hŷn a Rheolwr cartref gofal ar gyfer anabledau dysgu. Nod yr ymweliadau â'r cartrefi gofal oedd cyflwyno Llais a'r gwaith a wnawn, ac i drafod ffyrdd y gallem gydweithio yn y dyfodol i gasglu barn preswylwyr a'u teuluoedd.

Gwnaethom ymgysylltu wyneb yn wyneb yn y lleoliadau canlynol neu gyda'r grwpiau canlynol:

Ymgysylltu yn Llyfrgell Aberhonddu
Grŵp Cinio a Chreffft yng Nghanolfan Wirfoddoli Aberhonddu
Ymgysylltu yn Swyddfa Bost Pontsenni

Taflen galw heibio yn Pontsenni
Barddoniaeth yn Mind (Brecon MIND)
Crafternoon (Brecon MIND)
Canolfan Feddygol Aberhonddu
Green Minds, Eglwys Gadeiriol Aberhonddu
Cyfarfod â Grŵp Mynediad Aberhonddu
Cyfarfod â Rheolwr Cartref Gofal i Bobl Hŷn
Cyfarfod â Rheolwr Cartref Gofal ar gyfer Anabledd Dysgu
Sied Dynion Aberhonddu
Ysbyty Aberhonddu - Adran Pelydr-x ac Adran Cleifion Allanol
Safle Teithwyr King's Meadow, Aberhonddu
Ymgysylltu y tu allan i Siop Co-op, Aberhonddu
Clwb Ieuenctid Aberhonddu
Grŵp Cymorth Parkinsons De Powys, Canolfan Gymunedol Llangors
Te, Tôst a Sgwrs yng Nghanolfan Gymunedol Trecastell
Dosbarthu taflenni yn Nhre Castell
Bore coffi 'Cuppa and Chat', Neuadd y Dref, Aberhonddu
Sesiwn Canu Dyrchafiad, Theatr Brycheiniog
Coleg Aberhonddu – Sgwrs gyda myfyrwyr sy'n mynychu'r cwrs Saesneg i Fyfyrwyr Ieithoedd Eraill

# YR HYN RYDYM WEDI EI GLYWED O SGYRSIAU GYDA PHOBL

Yr hyn a glywsom yn aml yn y gymuned oedd bod pobl yn teimlo bod gwasanaethau'n dda iawn ar y cyfan ar ôl iddynt allu dechrau eu defnyddio.



Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y gwasanaethau canlynol:

- Gofal a dderbyniwyd gan Feddygfa Aberhonddu unwaith y cafwyd apwyntiad.
- Mae gwasanaethau cludiant cleifion nad ydynt yn rhai brys yn dda iawn.
- Gwasanaethau a gofal a ddarperir yn Ysbyty Aberhonddu, Ysbyty Ystradgynlais, Ysbyty'r Tywysog Charles, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty'r Grange.
- Gwasanaethau mân anafiadau.
- Gwasanaethau ffisiotherapi.
- Gwasanaethau ailalluogi.
- Gwasanaeth Gofal a Thrwsio.
- Gofal a thosturi a ddangoswyd gan staff Ambiwlans.
- Gofal cancer.
- Gofal cardiofasgwlaidd.
- GIG 111.
- Gwasanaethau mamolaeth Powys.
- Gofal lliniarol/diwedd oes.

- Gwasanaeth deintyddol cymunedol.
- Cymorth Credu i Ofalwyr.
- Gwasanaethau Ieuencid Powys.
- Nyrs Parkinson's yn Ne Powys.

Fodd bynnag, dywedodd pobl wrthym fod cael mynediad at wasanaethau yn aml yn heriol. Mewn llawer o achosion roedd hyn yn ymwneud ag anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu, mewn rhai achosion roedd yn ymwneud â methu â chael gwasanaethau deintyddol y GIG ac, mewn rhai achosion, roedd yn ymwneud ag anawsterau gyda mynediad at ofal yn yr ysbyty ac amseroedd aros am ofal wedi'i gynllunio. Clywsom bryderon hefyd am deithio a chludo i wasanaethau, yn enwedig i bobl nad oes ganddynt eu cerbyd eu hunain.

## **Gwasanaethau Meddygon Teulu**

Ym mhob sesiwn ymgysylltu, dywedwyd wrthym fod cysylltu â Meddygfa Grŵp Meddygol Aberhonddu dros y ffôn a chael apwyntiadau yn anodd iawn. Roedd y neges hir sydd wedi ei recordio ar ddechrau'r alwad yn boenus. Dywedodd llawer o bobl, wrth ffonio, fod 30/40/50 o bobl yn aml yn y ciw o'u blaenau ac roedd hyn yn golygu gorfod aros ar y ffôn am amser hir, yn aml dros awr. Achosodd hyn anawsterau i rannau eang o'r gymuned, gan gynnwys pobl â ffonau symudol talu wrth fynd, pobl hŷn, pobl niwroamrywiol a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

Eglurodd pobl, yn aml, pan oeddent yn llwyddo i fynd drwodd ar y ffôn, eu bod yn cael gwybod nad oedd apwyntiadau ar gael a gofynnwyd iddynt ffonio yn ôl y diwrnod canlynol. Roedd hyn yn digwydd i bobl oedd yn ceisio mynd drwodd i'r Practis o ddechrau'r bore ac roedd yn achosi llawer o rwystredigaeth.

Clywsom hefyd nad oedd pobl yn gallu gwneud apwyntiadau arferol o flaen llaw - dywedwyd wrthynt fod yn rhaid iddynt ffonio am apwyntiad ar y diwrnod.

Roedd dim ond gallu gwneud cais am apwyntiadau ar yr un diwrnod yn anodd iawn i bobl nad oedd ganddynt eu cludiant eu hunain. Mae Dial-a-Ride yn gynllun cludiant cymunedol ond nid yw ar gael ar amseroedd cludiant ysgol (bore a phrynhawn) oherwydd eu bod yn darparu gwasanaeth cludiant ysgol. Dywedwyd wrthym nad yw cwmnïau tacsï

yn cymryd cadeiriau olwyn. Doedd bysus ddim yn opsiwn hawdd i rai pobl oherwydd lle roedden nhw'n byw. Dywedodd rhai pobl eu bod wedi cael taith gerdded hir i gyrraedd y feddygfa.

Dywedodd rhai pobl eu bod yn poeni am gyfrinachedd pan ofynnwyd iddynt esbonio'r rheswm dros eu galwad i'r derbynyddion meddygon teulu. Roedd hyn yn arbennig o wir am bobl oedd yn adnabod y derbynwyr yn bersonol.

Nododd llawer o bobl broblemau gyda pheidio â chael amser am alwad yn ôl gan y meddyg teulu neu'r nyrs. Roedd yn arbennig o bwysig i bobl sy'n gweithio, pobl â phlant oedd angen mynd i'r ysgol a phobl â signal symudol gwael, gan eu bod yn poeni y byddent yn colli'r alwad. Dywedodd pobl wrthym am fethu galwadau ac yna gorfod mynd yn ôl yn y ciw ffôn hir i ddechrau'r broses eto. Adroddwyd bod hyn yn peri straen mawr i rai.

**Dywedodd pobl wrthym y byddai'n well pe bai staff y practis yn gallu rhoi slot amser iddynt o bryd i ddisgwyl galwad yn ôl gan y meddyg teulu neu'r ymarferydd.**

Roedd diffyg parhad a pheidio â gweld yr un meddyg teulu yn achosi anhawster i rai pobl, yn enwedig os mai meddyg locwm oedden nhw'n ei weld. Dywedodd pobl nad oedden nhw'n gallu datblygu perthynas gyda'r meddygon. Dywedodd pobl ag ADHD, awtistiaeth, problemau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd cronig fod hyn yn bryder gwirioneddol iddynt.

Clywsom gan bobl sy'n byw ym Mrycheiniog oedd yn methu deall pan ofynnwyd iddynt deithio i'r feddygfa ym Mhontsenni ar gyfer eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod meddygfa Pontsenni'n dal i ddefnyddio ffenestr allanol ar gyfer y fferyllfa a olygai fod pobl weithiau'n aros y tu allan yn y glaw, heb unrhyw gysgod. Nid oeddent yn deall pam na allent gasglu eu presgripsiynau yn y feddygfa.

Codwyd pryder am gofnodi brechiadau plentyndod. Roedd mam wedi cael cais pa frechiadau roedd ei phlentyn wedi eu derbyn ond doedd hi ddim yn gwybod pa frechiad roedd y phlentyn wedi ei gael yn yr ysgol.

Roedd hi'n credu y dylai'r cofnodion meddygon teulu fod wedi bod yn gyfredol i gynnwys y wybodaeth hon.

Roedd canfyddiad bod Practis Meddygol Aberhonddu yn llai croesawgar ers pandemig COVID. Dywedodd pobl eu bod yn teimlo bod y cysylltiad personol wedi'i golli.

Mewn tri digwyddiad gwahanol, clywsom fod si bod Practis Meddygol Aberhonddu yn cau. Pan wnaethom ymweld â'r feddygfa ym Mhontsenni, dywedwyd wrthym fod rhai pobl yn y gymuned yn meddwl bod y feddygfa yno ar gau.


**Roedd nifer o bobl yn teimlo bod angen egluro i'r cyhoedd sut mae'r system i gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu bellach yn gweithio.**

Clywsom hefyd gan bobl a oedd yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn y feddygfa; Roeddent yn teimlo eu bod yn gallu cael apwyntiadau pan oedd eu hangen arnynt a'u bod yn cael gofal da. Roedd rhywun oedd wedi cael cais i e-bostio llun i'r feddygfa yn meddwl bod hyn yn dda gan ei fod yn cyflymu'r broses. Roedd yn brofiad newydd iddyn nhw ond roedden nhw'n hoffi'r hyblygrwydd hwnnw. Nodwyd na fyddai rhai pobl yn gallu defnyddio'r dechnoleg ar gyfer hyn.

## **Fferyllfa Gymunedol**

Y prif broblem a glywsom am wasanaethau fferylliaeth gymunedol oedd yr un yn ymwneud â diffyg meddyginiaethau presgripsiwn pan oedd pobl yn mynd i'w casglu.

Mynegodd pobl hefyd awydd i fferyllfeydd fod ar agor am oriau hirach.



Rhagnodwyd gwrthfotigau i blentyn gan y meddyg teulu ar ddiwedd y dydd, roedd y fferyllfa wedi cau erbyn i'r presgripsiwn gael ei dderbyn ac nid oedd gan y feddygfa y feddyginiaeth ar gael - golygai hyn nad oedd y plentyn yn gallu dechrau triniaeth tan y diwrnod canlynol.

Mynegwyd pryder am ddiffyg cyfathrebu canfyddedig rhwng fferyllfa a meddygfeydd. Enghraifft a ddarparwyd oedd am glaf yn ticio'r hyn oedd ei angen yn unig ar y slip presgripsiwn rheolaidd ond roedd popeth ar y rhestr yn cael ei gyflenwi ac roedd hyn wedi arwain at bentwr o stoc.

Nododd pobl brofiadau cadarnhaol o gael mynediad i'r fferyllfa am driniaeth a chyngor. Enghreifftiau oedd brechiad ffliw ac adolygiadau meddyginiaethau.

## **Gwasanaethau deintyddol y GIG**

Fel mewn ardaloedd eraill rydym wedi gweithio ynddynt, clywsom am anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG.



Dywedwyd wrthym fod pobl yn gallu cofrestru eu plant gyda deintydd GIG ond nad oeddent yn gallu cofrestru eu hunain. Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod wedi cael cynnig gofal deintyddol preifat ond roedd llawer ohonynt yn credu nad oedd hyn yn fforddiadwy.

Clywsom gan nifer o fenywod nad oeddent wedi gallu cael mynediad at ofal deintyddol y GIG tra roeddent yn feichiog neu yn ystod y 12 mis ar ôl rhoi genedigaeth.

Cyfarfuom â chynrychiolwyr Grŵp Mynediad Brycheiniog i drafod eu pryderon ynghylch mynediad anabledd i ddeintydd y GIG a oedd wedi agor yn Stryd y Castell tua chwe mis yn ôl. Codwyd nifer o faterion:

- Palmant cul y tu allan i'r adeilad heb unrhyw ymyl wedi'i ollwng Mae troi cadair olwyn yn anodd iawn yn y gofod hwnnw.
- Gris bas i fyny at fynedfa'r feddygfa sy'n anodd cael mynediad gyda chadair olwyn.
- Mae pobl sydd â sgwteri symudedd wedi dweud nad ydyn nhw'n gallu mynd i mewn i'r adeilad.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd triniaeth a'r ystafelloedd aros ar y llawr cyntaf neu'r ail. Mae'r grisiau carreg wedi treulio. Nid ydynt yn hawdd eu dringo i unrhyw un sy'n oedrannus neu sydd â nam symudedd neu nam ar eu golwg. Nid oes lifft i'r lloriau uchaf.
- Mae un ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod ond ni ofynnir na chynghorir pobl i roi gwybod i'r Practis os nad ydynt yn gallu defnyddio'r lloriau uchaf.
- Pan mae pobl wedi mynychu'r Feddygfa, sydd ond yn gallu cael mynediad i ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod, maen nhw wedi gorfod aros.
- Mae pobl yn credu na fu unrhyw gyfathrebu am y practis deintyddol newydd hwn. Mae rhif ffôn newydd ond nid yw pobl wedi cael gwybod amdano. Adroddir bod nifer o bobl wedi dod i'r adeilad anghywir ar gyfer apwyntiadau.

*Fe wnaethom ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i godi'r pryderon am fynediad anabledd. Mewn ymateb, rydym yn cynghori:*

- *Mae'r Practis wedi edrych ar opsiynau o ran mynediad i'r safle ond maent wedi'u cyfyngu i welliannau y gellir eu gwneud oherwydd statws adeilad rhestredig.*
- *O ran symud y palmant i lawr byddai angen gwneud hyn drwy Gyngor Sir Powys.*
- *Ar gyfer cleifion sy'n cael anawsterau wrth gael mynediad i'r Feddygfa, gall y practis eu cyfeirio at Wasanaeth Deintyddol Cymunedol BIAP i gael triniaeth.*
- *Os nad yw claf sydd â phroblemau symudedd yn gallu cael mynediad i feddygfa, yna gall ffonio Llinell Gymorth Ddeintyddol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys am gymorth/atgyfeirio i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol. Rhif y llinell gymorth yw 01686 252808.*
- *Mae cofnodion cleifion yn cael eu nodi i hysbysu pryd mae angen y triniaeth ar y llawr gwaelod ac anogir cleifion i roi gwybod i'r Practis a fydd angen iddynt ddefnyddio'r feddygfa ar y llawr gwaelod.*
- *Cadarnhaodd y Practis fod yr adeilad yn bodloni'r rheoliadau adeiladu gofynnol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd, gan gynnwys y grisiau. Gan ei fod yn risiau carreg, nid yw'n bosibl drilio i mewn iddo i osod ymylon blaen. Fe'u cynghorwyd nad yw'n bosibl paentio'r grisiau gyda phaent di- lithro.*
- *Os, ar adeg apwyntiad, nad oedd y practis yn ymwybodol mai dim ond yr ystafell ar y llawr gwaelod y gallai claf gael mynediad iddi, gwneir pob ymdrech i symud yr apwyntiad hwnnw i'r llawr gwaelod. Gall hyn arwain at oedi tra bydd y feddygfa yn gwneud y trefniadau. Os nad yw'n bosibl i'r claf gael ei weld yn yr ystafell ar y llawr gwaelod bryd hynny, byddent yn cael apwyntiad arall cyn gynted â phosibl.*
- *Mae rhif ffôn newydd ar gyfer y Practis ond mae'r holl rifau ffôn blaenorol yn dal i fod mewn gwasanaeth ac yn cael eu hailgyfeirio at y rhif newydd.*
- *Roedd y practis yn cydnabod bod ffonau yn hynod o brysur gyda'u cleifion cofrestredig yn ffonio am apwyntiadau a gyda phobl yn edrych i gael mynediad at ddeintydd GIG. Mae'r llinellau ffôn bob amser yn cael eu staffio ond, os yw tîm y dderbynfa yn delio â chleifion wrth y*

*ddesg, bydd adegau pan na allant ateb y ffôn.*

- *Mae'r practis wedi pasio'r holl archwiliadau diogelwch tân perthnasol. Nid yw dihangfa tân allanol yn bosibl oherwydd lleoliad a statws rhestredig yr adeilad.*

## **Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu**

Cynhaliom un sesiwn ymgysylltu yn yr ysbyty cymunedol a buom yn siarad â phobl a oedd yn mynychu apwyntiadau cleifion allanol.

Roedd pobl yn canmol y gwasanaethau a gawsant yn yr ysbyty - fel yr Uned Mân Anafiadau, llawdriniaethau dydd a gynhaliwyd yn yr ysbyty, staff a gofal bob amser wedi bod yn ardderchog, clinig awdioleg, endosgopi, uned mamolaeth dan arweiniad bydwragedd, gofal diwedd oes, ffisiotherapi, gwasanaeth deintyddol cymunedol. Roedd pobl yn falch bod ymgynghorwyr o ysbytai y tu allan i'r sir yn darparu gwasanaethau cleifion allanol yn Ysbyty Aberhonddu.

Dywedwyd wrthym ei bod yn anodd cysylltu â'r ysbyty os oedd angen i glaf newid apwyntiad.

## Gofal eilaidd (Ysbytai Cyffredinol)


Gwnaeth llawer o bobl sylwadau ar yr arosiadau hir ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Clywsom am bobl yn talu i gael llawdriniaeth wedi ei wneud yn breifat, gyda rhai pobl yn teithio dramor i gael triniaeth a rhai pobl yn talu am fwy nag un driniaeth lawfeddygol am gost sylweddol.

Roedd pobl yn teimlo bod cyfathrebu gwael am faint o amser y dylen nhw ddisgwyl aros. Mae hyn yn achosi ansicrwydd a straen.

Roedd claf oedd wedi aros bron i flwyddyn hyd yma am lawdriniaeth cataract wedi cael gwybod gan ysgrifennydd yr ymgynghorydd "na fydd yn digwydd yn fuan".

"Cyfeiriwyd at wasanaeth yn Ysbyty'r Tywysog Charles. Cael sgan Tachwedd 2022, derbyn llythyr ym mis Ionawr 2023 yn nodi y byddai apwyntiad yn cael ei drefnu ac y byddent mewn cysylltiad. Heb glywed unrhyw beth ers misoedd, ffonio sawl gwaith a dweud eu bod wedi ei farcio fel mater brys. Wedi cael apwyntiad cyn-weithredol Hydref 2023, dim dilyniant hyd heddiw ac yn dal i aros am weithrediad. Wedi ffonio bum gwaith yn ystod y chwe mis diwethaf, dim ond yn gallu siarad â'r ysgrifennydd oedd yn cytuno ei fod wedi cael ei farcio fel un brys ond eglurodd fod yna rai eraill wedi'u marcio fel achosion brys ar y rhestr sydd i'w gweld o'm blaen. Mae hyn wedi achosi pryder mawr i mi."

Clywsom hefyd am anawsterau wrth gael canlyniadau yn dilyn profion diagnostig. Yn aml, mae'n rhaid i bobl ddilyn i fyny i geisio cael canlyniadau.




Roedd canlyniadau sgan esgyrn ar gyfer osteoporosis a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023 yn dal i aros ym mis Ebrill 2024 er i'r claf ffonio I holi. Roedd y claf hwn yn ymwybodol o bobl eraill yn aros am eu canlyniadau sganio.

Dywedodd pobl wrthym am aros yn hir iawn mewn Adrannau Achosion Brys, yn aml yn eistedd mewn cadeiriau anghyfforddus. Roedd gan un person brofiad o fynychu yr adran frys yn Ysbyty'r Tywysog Charles ar ddau achlysur, y tro cyntaf yn aros am 9 awr a'r ail yn aros am 13 awr ar ôl brysdreulio. Cafodd claf arall oedd yn yr adran frys dros nos ei drosglwyddo i ward y bore wedyn ond doedd dim gwely ar gael ar y ward felly roedden nhw'n dal mewn cadair. Cafodd claf arall oedd â hanes o strôc ei gludo l'r adran frys gydag amheuaeth o strôc - roedden nhw mewn cadair am dros 48 awr ac eisiau mynd adref. Dywedodd claf arall eu bod wedi treulio dwy noson yn Ysbyty'r Grange a'u bod yn gorfod cysgu'n unionsyth mewn cadair. Roedd y person nesaf iddyn nhw wedi treulio pedair noson mewn cadair.

Ers i wasanaethau symud o Ysbyty Nevill Hall, mae'n rhaid i drigolion ardal Aberhonddu fynd i Ysbyty Tywysog Charles neu Y Grange ac adroddwyd bod cysylltiadau trafniadaeth i alluogi pobl i gyrraedd yno yn anodd.

Siaradodd pobl am y diffyg cofnodion cleifion a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol ysbytai, rhwng ysbytai a'u meddyg teulu a gyda nhw eu hunain. Roedd y broblem hon yn gwaethygu wrth gyrchu gwasanaethau dros y ffin yn Lloegr.




Roedd claf â nifer o gyflyrau iechyd wedi bod i 9 ysbyty gwahanol ar gyfer gwahanol wasanaethau/triniaeth. Oherwydd y diffyg cyfathrebu rhwng ysbytai ac adrannau, roedd yn rhaid i'r gofalwr gadw cofnod o bopeth ei hun. Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd rhyngweithio posibl rhwng gwahanol feddyginiaethau. Yn aml, roedd yn rhaid i'r gofalwr ofyn am gopi o lythyrau a anfonwyd at y meddyg teulu am nad oeddent yn cael eu hanfon yn awtomatig at y claf. Roedd y gofalwr hefyd yn gorfod gwneud galwadau ffôn rheolaidd i fynd ar ôl pethau. Gyda chymaint o wahanol ysbytai yn cymryd rhan, roedd hi'n aml yn anodd gwybod pwy oedd wedi gofyn am apwyntiadau, yn enwedig pan gafodd apwyntiadau eu derbyn sawl mis yn ddiweddarach.

Mewn rhai sesiynau ymgysylltu roedden ni'n eu mynychu, y consensws oedd bod y systemau gweinyddu yn ddolen wan - cawsom adroddiadau o bobl yn mynd i'r ysbyty i ganfod nad oedd y clinig yn rhedeg, ddim ar y rhestr wrth fynychu apwyntiad, aros am apwyntiadau dilynol, apwyntiadau a roddwyd ar gyfer amseroedd anaddas, dim dealltwriaeth o bellter i deithio. Lle roedd yr apwyntiad nesaf yn cael ei drefnu tra bod y claf yn bresennol, roedd pobl yn teimlo bod hyn yn arfer da iawn.

## **Awgrymwyd y dylid cael system lle mae cleifion yn cael cynnig ystod o amseroedd apwyntiad i ddewis ohonynt.**

Siaradodd rhai pobl yn gadarnhaol am gael dewis ynghylch pa ysbytai i'w mynychu.

Dywedodd pobl wrthym am deimlo'n bryderus ar ôl darllen yn y wasg am oedi yn yr ysbyty ac amseroedd aros am driniaeth yn ystod y cyfnod clo ac yn y blynyddoedd canlynol. Fodd bynnag, fe wnaethant adrodd bod eu profiadau yn yr ysbyty yn ystod y cyfnod hwnnw yn wych.



Dywedodd claf oedd wedi bod drwy driniaeth canser yn 2021/22 fod y gwasanaeth a gawsant yn effeithlon ac yn wych yn Ysbyty Brenhinol Gwent - fe gyrhaeddodd nhw ar amser a chael eu trin ar amser bob tro roedden nhw'n mynd i'r ysbyty. Roedden nhw'n synnu pa mor wych oedd y gwasanaeth.

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo bod y gofal canser a gawsant yn dda iawn - darparwyd enghreifftiau am driniaeth wych yn Felindre, yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, roedd gofal lliniarol yn Ysbyty Llandrindod yn wych, roedd gofal gartref a ddarparwyd gan Macmillan yn wych, roedd cefnogaeth a chwnsela Ymddiriedolaeth Braen yn ardderchog a chafwyd apwyntiad cyflym iawn yn dilyn atgyfeiriad gan ddeintydd.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Roedd nifer o bobl yn siarad am wasanaethau iechyd meddwl. Roedd consensws cyffredinol bod angen mwy o gefnogaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.


Roedd adroddiadau bod pobl yn gorfod aros yn hir yn dilyn atgyfeiriad am gwnsela, gyda rhai pobl yn dweud bod atgyfeiriadau wedi eu colli yn y system.

Disgrifiodd pobl brofiadau cymysg o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd rhai pobl yn canmol gwasanaethau yng Nghanolfan Adnoddau Iechyd Meddwl Tŷ Illtyd tra bod eraill yn teimlo na chawson nhw'r gefnogaeth yr oedd ei hangen arnyn nhw. Mae rhai pobl eisiau mwy o gymorth allgymorth i'w helpu gartref.

Cafwyd canmoliaeth am ofal a ddarparwyd ar Ward Felindre yn Ysbyty Bronllys, yn dilyn argyfwng iechyd meddwl.

## Gofal Dementia

Clywsom am aros yn hir cyn derbyn diagnosis o ddementia.



"Cyn cael diagnosis gyda dementia cafodd fy ngwraig ei chyfeirio gan y meddyg teulu am ymgynghoriad gyda seiciatrydd. Cawsom ein siomi gan ba mor hir y cymerodd hyn i ddigwydd, bedwar mis i gyd heb unrhyw gyswllt. Buom yn siarad â CPN yn ystod y cyfnod hwn a gafodd bethau symud yn y pen draw. Roedd y broses yn siomedig ac yn straen i'r ddau ohonom. Roeddwn i'n teimlo ein bod wedi cael ein hanghofio. "



Dyweddodd rhai pobl fod y gofal ar gyfer pobl â dementia yn annigonol yn Ysbyty Aberhonddu.

## **Gofalu am bobl â Parkinson's**

Fe wnaethom gyfarfod ag aelodau o Grŵp Cymorth Parkinson's De Powys. Roeddent yn dweud fod Nyrs Parkinson's yn Ne Powys yn ardderchog ond bod ganddyn nhw bryderon am barhad a gofyn pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer parhad y gwasanaeth. Roedden nhw'n ymwybodol bod gogledd y sir wedi bod heb Nyrs Parkinson ers amser maith.

Soniodd y Grŵp am arosiadau hir ar gyfer apwyntiadau niwrolegydd oedd yn golygu bod oedi mewn diagnosis. Roeddent yn dweud fod yr aros am apwyntiad tua 46 wythnos. Eglurwyd bod prinder niwrolegwyr. Mae'r niwrolegydd yng Ngwent yn rhan amser. Roedd hyn yn golygu ei bod hefyd yn anodd cael apwyntiadau niwrolegol dilynol.

## **Oherwydd diffyg niwrolegwyr, awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael geriatregydd mewn swydd gyda gwybodaeth arbenigol am glefyd Parkinson.**

Ar ôl derbyn diagnosis o glefyd Parkinson, roedd pobl yn teimlo bod datgysylltiad am ofal parhaus. Roedd diffyg gwybodaeth ac arweiniad i bobl oedd newydd gael diagnosis.

Roedd y grŵp yn credu bod Parkinson's yn cael ei gamddeall yn fawr. Roeddent yn meddwl mai prin yw'r wybodaeth sydd gan lawer o feddygon teulu amdano ac roedd yna amharodwydd weithiau i gyfeirio at niwrolegydd.

Siaradodd yr aelodau am bwysigrwydd ymarfer corff a symud yn rheolaidd i bobl â chlefyd Parkinson ond, i lawer o bobl, roedd diffyg cyfle i allu mynychu sesiynau rheolaidd i helpu gyda symud neu adsefydlu. Fe wnaethon nhw egluro bod rhai pobl yn derbyn ffisiotherapi ond roedd hynny am gyfnod cymharol fyr ac yna roedd yn dirwyn i ben. Mae Grŵp Cymorth Parkinson's yn ariannu grŵp ymarfer corff sy'n cael ei redeg gan ffisiotherapydd sydd wedi ymddeol ond roedd hi'n anodd i lawer o bobl allu cyrraedd y sesiynau.

## **Gofynnodd y Grŵp a oedd gofyniad neu unrhyw gynlluniau i**

## **Fyrddau lechyd ddarparu sesiynau ymarfer corff a symud ar gyfer pobl â Parkinson's.**

Esboniodd aelod o'r Grŵp eu bod yn arfer mynychu cyfarfodydd Neuro Voice Powys, a oedd yn gweithio o amgylch gwybodaeth a chyngor i bobl â chyflyrau niwrolegol. Daeth y Grŵp i ben pan adawodd y clinigwr ac ni ddaeth neb i lenwi'r swydd.

Darparwyd gwybodaeth am 'The Parky Charter' a'r Movers & Shakers Podcast.<sup>1</sup>

## **Trafodaethau gyda phobl ifanc**

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw wedi derbyn archwiliadau deintyddol a thriniaeth flynyddol os oedd angen, er eu bod yn siarad am restrau aros hir ar gyfer rhai triniaethau deintyddol, e.e. tynnu dannedd a gosod brace.

Yn y sesiynau, clywsom am yr anhawster i fynd drwodd i'r feddygfa ar y ffôn. Siaradodd pobl ifanc yn gadarnhaol am ofal a thriniaeth gan y Feddygfa, gydag enghreifftiau yn ofal asthma a chefnogaeth gydag ADHD. Roedd y diagnosis ar gyfer ADHD wedi cymryd mwy na blwyddyn.

Dywedodd y bobl ifanc a oedd ar feddyginiaeth rheolaidd nad oedd eu meddyginiaeth ar gael weithiau o'r fferyllfa ac roedd yn ymddangos ei fod yn broblem gynyddol.

Siaradodd pobl am amseroedd aros hir yn yr Adrannau Brys.

Dywedodd rhai o'r bobl ifanc nad oedd llawer o wybodaeth am ble i gael cyngor iechyd rhywiol na chyngor iechyd yn gyffredinol. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ChatHealth. Doedd arweinwyr y Clwb leuencid ddim i gyd yn ymwybodol o ChatHealth. **Bydden nhw'n croesawu pe bai rhywun o'r gwasanaeth yn dod draw i'r Clwb leuencid i siarad amdano.**

Mynegodd nifer o bobl ifanc anfodlonrwydd gyda'r tîm llesiant yn yr ysgol. Dywedon nhw nad ydyn nhw'n galw'n gartref ac roedd pobl ifanc

---

<sup>1</sup> <https://www.moversandshakerspodcast.com/post/charter-2>

yn teimlo nad oedden nhw'n cael eu cymryd o ddifri pan reddden hw'n mynd at y tîm.

Clywsom am brofiadau cadarnhaol iawn gyda Gofalwyr Ifanc Credu a hyrwyddodd y bobl ifanc y gwasanaeth i'w cyfoedion a oedd hefyd yn ofalwyr ifanc.

Soniodd pobl am brofiadau cadarnhaol gyda Gwasanaeth Ieuencid Powys.

### **Trafodaeth gyda Rheolwyr Cartrefi Gofal**

Cawsom gyfarfodydd cadarnhaol gyda rheolwyr cartrefi gofal. Roeddent yn croesawu Llais i fynd i mewn i ymgysylltu â thrigolion a theuluoedd.

O ran gwasanaethau'r GIG, dywedwyd wrthym:

- Mae'r cylch ward meddygon teulu yn cael ei wneud dros y ffôn ac nid oedd hyn yn cael ei ystyried fel arfer gorau.
- Yn aml nid oedd angen gwasanaethau Nyrsio Ardal ar y cartref nyrsio ond roedd y Nyrsys Ardal bob amser ar gael i roi cyngor.
- Roedd y cyfnod aros am ffisiotherapi yn hir.
- Fel arfer, roedd asesiadau therapi galwedigaethol yn eithaf cyflym ond roedd oedi wrth aros am offer. Cawsom wybod bod preswilydd wedi aros dros flwyddyn am asesiad cadair olwyn ond, oherwydd dirywiad yn eu symudedd, nid oeddent wedyn yn gallu defnyddio cadair olwyn.
- Adroddwyd bod y deintydd cymunedol yn darparu gwasanaeth gwych i'r cartref nyrsio ond, i bobl ag anableddau dysgu, adroddwyd bod disgwyl yn hir am ofal deintyddol gan y gwasanaeth deintyddol cymunedol, yn enwedig i bobl a oedd yn aros am lawdriniaeth neu ddannedd gosod.
- Cafwyd cefnogaeth dda gan y Tîm Anableddau Dysgu ym Mronllys.

O ran gofal cymdeithasol, dywedwyd wrthym:

- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r preswylwyr weithiwr cymdeithasol a enwyd ac fel arfer dyrennir gweithiwr cymdeithasol yn ôl yr angen.
- Yn gyffredinol, roedd adolygiadau blynyddol yn cael eu gwneud ar amser a'r Swyddog Adolygu oedd yn eu cynnal yn hytrach na gweithiwr cymdeithasol.
- Roedd teimlad bod hyn yn golygu bod parhad yn cael ei beryglu.

- Adroddwyd bod problemau gyda chysylltiad/atgyfeiriadau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol y tu allan i'r sir, yn enwedig ardaloedd Cwm Taf ac Abertawe.
- Roedd problemau yn ymwneud â chyllid i bobl nad ydynt yn gallu rheoli eu cyfrifon cynilo eu hunain. Mae angen rhywun sy'n gallu cymryd dirprwyaeth ond nid oes gan yr Awdurdod Lleol y gallu i'w wneud hyn.

Sylwadau eraill:

- Roedd heriau i ofalu am bobl ag anableddau dysgu, yn enwedig o ran eu hanghenion newidiol wrth iddynt heneiddio. Roedd angen darparu gwasanaethau preswyl ar gyfer y dyfodol i bobl pan mai'r awydd yw iddynt gael cynnig cartref am oes. Nid oedd pob adeilad preswyl yn addas i bobl wrth iddynt fynd yn hŷn.
- Roedd ymdeimlad da o gysylltiad â'r gymuned ar gyfer y bobl ag anableddau dysgu.
- Roedd y pwll hydrotherapi yn Ysgol Penmaes yn arfer bod ar gael i bobl ag anableddau dysgu sydd angen offer codi arnynt. Mae'r pwll wedi cau sy'n golygu nad yw'r trigolion bellach yn gallu mynd i nofio.
- Mae cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu yn gyfyngedig iawn oherwydd bod prinder Hyfforddwyr Gwaith.

## Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

- Roedd gan bobl bryderon am ddiffyg cysondeb gyda gweithwyr cymdeithasol. Roeddent yn cyfeirio at newidiadau cyson mewn gweithwyr cymdeithasol a oedd, i rai pobl, yn ei gwneud hi'n anodd adeiladu ymddiriedaeth. Roedd yn gwneud i rai pobl deimlo'n bryderus na fydden nhw'n cael y gefnogaeth oedd ei hangen arnynt.
- Roedd pobl yn ymwybodol bod prinder gweithwyr gofal a'r anhawster wrth drefnu pecynnau gofal yn achosi oedi sylweddol wrth ryddhau cleifion yn yr ysbyty sydd yn barod i fynd adref.

### Profiad 1:

**"Mae fy nhad a'm mam wedi bod gyda'i gilydd am 67 mlynedd ond ar hyn o bryd maen nhw wedi gwahanu. Torrodd asgwrn ac mae wedi derbyn gofal yn yr ysbyty. Mae wedi cael ei asesu i fynd adref. Ni allwn gael pecyn gofal llawn ar waith ac mae'r tîm pontio**

yn ymwybodol o hyn. Cawsom 3 opsiwn i ddewis ohonynt ac os na fyddem yn derbyn un, cawsom rybudd y byddai'n mynd i mewn i gartref. Yn y diwedd roeddem yn teimlo ein bod yn cael ein gorfodi i dderbyn opsiwn gan ein bod yn pryderu am ein mam. Cafodd y pecyn a ddewisom ni wedyn ei ganslo gan ei fod wedi cael ei gadw yn yr ysbyty a rhoddwyd y pecyn gofal i rywun arall. Ers hynny rydym wedi siarad â 2 asiantaeth gofal ac wedi cael gwybod na fyddant yn cynnwys ein hardal. Ni allwn hyd yn oed gael gofal preifat nawr ac rydym wedi cael gwybod "byddwn yn ei roi mewn cartref gofal dros dro," gallai hyn fod yn unrhyw le y mae bwlch. Buom yn siarad â'r gweithiwr cymdeithasol, a chawsom sicrwydd nad oeddem dan anfantais er gwaethaf y ffaith ei fod wedi bod mewn ysbytai amrywiol ers sawl mis. Mae ein rhieni eisiau treulio gweddill eu bywydau gyda'i gilydd. Yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae'n cael ei "ddatsgilio" (roedd yn arfer newid ei fag ei hun, ond maen nhw'n dweud wrtho, rhaid iddo adael iddyn nhw ei wneud.)"

## **Profiad 2:**

Roedd ein Gofalwyr Powys yn wych, yn ymweld bedair gwaith y dydd. Mor gyfeillgar ac ni allent wneud digon. Roedd arweinydd y tîm hefyd yn wych. Ffurfiodd y gŵr gysylltiad da ac fe wnaethant ei gael trwy amseroedd tywyll.

Ar ôl chwe wythnos cawsom alwad ffôn sydyn (ar ddydd Mercher) gan gwmni preifat o'r enw Pheonix, yn egluro eu bod yn cymryd drosodd pecyn gofal o ddydd Llun ymlaen. Ni chawsom unrhyw rybudd na chyfathrebu blaenorol o Bowys y byddai hyn yn digwydd. Fe wnaethon ni ddarganfod yn ddiweddarach mai dyma'r hyn sy'n cael ei alw'n wasanaeth pontio a dim ond nes y gall cwmni preifat gymryd yr awenau y mae staff Powys yn darparu gofal. Ni esboniwyd hyn erioed ymlaen llaw, cyfathrebu gwael iawn ac achosi llawer o ofid inni. Fe wnaethom gwyno i Bowys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac ni chawsom unrhyw gydnabyddiaeth o'r gwyn. Roedd y gŵr yn anhapus gyda newid

**gofalwyr, newidiodd ei hwyliau a dechreuodd gau i lawr yn llwyr. Ffoniais y gwasanaethau cymdeithasol, daeth menyw l'n gweld ac fe wnaethon ni dorri i lawr, yn ofidus iawn. Trefnodd y fenyw i Reolwr Ardal Phoenix ymweld â ni a thrafod pecyn gofal, gan ddweud wrthym nad oedd gennym unrhyw ddewis yn y mater. Yn dilyn hynny, ni ddaeth Rheolwr Phoenix ar yr amser / dyddiad a gytunwyd. Galw ar y gwasanaethau cymdeithasol i ddilyn hyn i fyny ac fe wnaethant egluro bod Phoenix wedi tynnu'n ôl o'r contract. Cawsom ein rhoi dan ofal Powys am chwe wythnos arall a chawsom sicrwydd y byddem yn cael cymryd rhan llawn pe bai newid arall yn cael ei gynrig. Dair wythnos i mewn i'r gofal cawsom alwad ffôn arall dirybudd gan gwmni o'r enw Spectrum, yn egluro y byddent yn cymryd drosodd y pecyn gofal yr wythnos ganlynol! Cysylltais â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a siarad â'r Uwch Reolwr Tîm, eglurais fod hyn yn achosi llawer o straen a nosweithiau di-gwsg. Dywedodd wrthyf y byddai'n cyflwyno Achos Busnes i atal trosglwyddiad rhag digwydd. Mae wedi bod yn ddeufis ers yr alwad ffôn honno ac rydym yn parhau dan Ofal Powys, ond ni fu unrhyw gyfathrebu ac rydym yn ofni'n gyson am alwad ffôn arall gan gwmni preifat. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod mor wael gyda chyfathrebu.**

- Roedd pobl yn credu y dylai gweithwyr gofal dderbyn gwell tâl ac amodau a dylid parchu'r rôl yn fwy uchel.
- Mewn rhai sesiynau, clywsom am ddiffyg eglurder a dealltwriaeth o strwythur gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn erbyn gwybodaeth gwasanaethau'r GIG. Cytunwyd bod angen addysg ar wasanaethau gofal cymdeithasol a sut i gysylltu ac ymgysylltu â gwasanaethau. Mynegwyd rhai teimladau o stigma ynglŷn â defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae rhai pobl yn ffyrnig o annibynnol ac ni fyddent am gyfaddef y gallent fod yn ei chael hi'n anodd.
- Roedd yna deimlad ei bod yn ymddangos bod gofal cymdeithasol yn gweithio yn y maes rheoli argyfwng.

## Sylwadau Eraill

- Rhoddodd menywod sylwadau cadarnhaol am wasanaethau mamolaeth, a ddarperir ym Mhowys ac yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Roedd menywod yn falch o gael cynnig dewis o ble i roi genedigaeth. Roedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw wasanaeth llawer mwy personol wrth roi genedigaeth gartref neu mewn uned eni leol.
- Dywedodd pobl wrthym nad oedden nhw'n credu bod digon o gefnogaeth ar ôl strôc. Roedd y gofal uniongyrchol yn dda ond, unwaith roedd rhywun yn cael ei ryddhau adref, nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Doedd dim clwb strôc lleol.
- Clywsom brofiadau cymysg o ddefnyddio GIG 111 - roedd pobl wedi ei ddefnyddio i gael gafael ar ofal deintyddol brys, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, gofal brys/cyngor a gwybodaeth iechyd. Roedd rhai pobl yn credu eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r gefnogaeth yr oedd eu hangen arnynt, ond roedd eraill yn teimlo nad oedd y cyngor a gawsant yn ddefnyddiol. Mynegodd pobl pryderon eu bod wedi cael cyngor i fynychu adrannau damweiniau ac achosion brys gyda'u plant ifanc pan oedden nhw'n credu nad oedd yn gwarantu ymweliad, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau. Doedd hi ddim yn bosib mynd â phlant ifanc i MIU Aberhonddu. Esboniodd rhai pobl eu bod wedi rhoi'r gorau i geisio ffonio 111 ar adegau oherwydd yr aros hir ar y ffôn.
- Mynegodd pobl eu pryderon am y penderfyniad diweddar i symud canolfan Ambiwlans Awyr Cymru o'r Trallwng i Ogledd Cymru.
- Clywsom gan sefydliadau'r trydydd sector a phrosiectau a ariennir gan y gymuned am yr anawsterau roedden nhw yn ei wynebu wrth gael yr arian sydd ei angen i gadw prosiectau gofal cymdeithasol i fynd.
- Mae unigrwydd ac arwahanrwydd mewn ardaloedd gwledig fel Powys yn broblem sylweddol. Gall effeithio ar iechyd meddwl a llesiant pobl.

# YR HYN A GLYWSOM O'R AROLYGON

Roedd gennym ddau arolwg ar gael i bobl eu cwblhau, naill ai ar-lein neu drwy gopi papur. Roedd gennym arolwg cyffredinol lle gallai pobl ddweud wrthym am unrhyw wasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol roedden nhw wedi ei dderbyn, ac arolwg am wasanaethau meddygon teulu.

Cafodd y cysylltiadau ar-lein i'r arolygon eu cynnwys ar daflenni a gylchredwyd ym mhob sesiwn ymgysylltu ac anfonwyd copïau at sefydliadau i'w rhannu'n gyhoeddus. Fe'u rhannwyd hefyd ar ein tudalen Facebook.

## Arolwg Cyffredinol – Dywedwch wrthym am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rydych wedi'u derbyn

Cawsom **31** o ymatebion i'r arolwg hwn.

Y gwasanaethau y gwnaeth pobl sôn amdanynt oedd:

Gwasanaeth	Nifer y Sylwadau
Gwasanaethau deintyddol	8
Gwasanaethau Meddygon Teulu	7
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	4
Ambiwlans Awyr Cymru	3
GIG Cyffredinol	3
Darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol	2
Ysbyty Aberhonddu	1
Ysbyty Treforys	1
Cludiant Cyhoeddus	1
Shropdoc	1
Gwasanaethau Bydwreigiaeth	1
Fferyllfa Gymunedol	1

Mae crynodeb o'r hyn a glywsom yn yr ymatebion i'r arolwg isod:

### Ymatebion i'r Arolwg am Wasanaethau Deintyddol



Dyweddod llawer o gleifion eu bod yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG, gyda phobl yn aml yn dweud eu bod yn gorfod teithio y tu allan i Bowys neu'n chwilio am ofal deintyddol preifat. I lawer o bobl, nid oedd gofal deintyddol preifat yn fforddiadwy.

Nododd pobl amseroedd aros hir am apwyntiadau, hyd yn oed ar gyfer triniaeth yr oeddent yn teimlo y dylai fod ar frys.

Cafwyd adolygiadau cymysg ar ansawdd y gofal, gyda rhai cleifion yn nodi profiadau rhagorol ac eraill yn nodi ymgynghoriadau brysiog neu esboniadau annigonol.

Gwelwyd diffyg pwyslais ar ofal ataliol ac addysg hylendid y geg.

### **Ymatebion i'r Arolwg am Wasanaethau Meddygon Teulu**

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan am Feddygfa Aberhonddu, er bod mynediad yn cael ei ddisgrifio fel un gwael heb unrhyw fodd i wneud apwyntiadau arferol ymlaen llaw. Roedd amseroedd aros hir ar y ffôn yn gŵyn gyffredin. Yn aml roedd angen i gleifion alw dro ar ôl tro, gan aros dros awr weithiau i siarad â rhywun. Roedd ansicrwydd amseroedd galwadau yn ôl yn achosi anghyfleustra i bobl.

Ar ôl i apwyntiad gael ei sicrhau, roedd cleifion yn disgrifio meddygon a nrsys fel rhai oedd yn barod i fod yn ddefnyddiol ac yn ofalgar.

Dyweddod pobl fod Meddygfa Pontsenni'n cael ei thanddefnyddio gydag argaeledd meddygon teulu cyfyngedig.

### **Ymatebion i'r Arolwg am Wasanaethau Iechyd Meddwl**

Disgrifiwyd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl fel rhai digyswllt ac yn anodd cael gafael arnynt, gan adael i gleifion deimlo nad oeddent yn cael cefnogaeth. Roedd yna gred bod gostyngiad wedi bod yn argaeledd cymorth iechyd meddwl rheolaidd ers dechrau'r pandemig Covid-19.

Amlygodd cleifion oedi wrth dderbyn gwasanaethau cwnsela. Roedd pobl â phroblemau llai difrifol yn meddwl eu bod wedi'u rhwystro rhag triniaeth angenrheidiol.

## **Ymatebion i'r Arolwg am ofal cymdeithasol**

Disgrifiodd pobl y frwydr wrth geisio sefydlu pecynnau gofal digonol. Roedd hyn yn aml yn arwain at dderbyniadau diangen i'r ysbyty ac oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Dywedodd pobl y dylid talu gweithwyr gofal yn well a bod angen recriwtio mwy.

Adroddwyd ar brofiad cadarnhaol o ofal cymdeithasol gan rywun y mae gan ei briod ddementia, gyda gweithwyr gofal a gweithiwr cydeithasol gwych a chefnogol.

## **Ymatebion i'r Arolwg am ofal brys**

Mynegodd pobl bryderon bod canolfan Ambiwlans Awyr Cymru yn symud o'r Trallwng i Ogledd Cymru.

Roedd amseroedd ymateb hir ambiwlansys yn peri gofid i bobl, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd cleifion yn gorwedd ar y llawr am sawl awr.

## Arolwg Cleifion am Wasanaethau Meddygon Teulu

Cawsom **36** o arolygon wedi'u cwblhau.

Enw'r practis meddyg teulu

Tŷ Henry Vaughan (Aberhonddu)	29
Canolfan Iechyd Pontsenni	4
Canolfan Feddygol Crucywel	1
Canolfan Feddygol Talgarth	1
Stryd Wylcwm, Tref-y-clawdd	1

Mae crynodeb isod o ganlyniadau'r arolwg.

### **Mynediad i Apwyntiadau**

Mae Practis Aberhonddu yn cael ei feirniadu am ei system brysbennu dros y ffôn gyda chiwiau hir ar y ffôn a'r anallu i wneud apwyntiadau arferol o flaen llaw.

Hoffai cleifion weld Meddygfa Pontsenni'n cael ei hailagor yn llawn.

### **Parhad Gofal**

Mae cleifion yn ei chael hi'n rhwystredig wrth weld gwahanol feddygon gan eu bod yn teimlo bod hyn yn effeithio ar barhad gofal. Mae awydd cryf i weld yr un meddyg ar gyfer materion parhaus.

Adroddodd pobl bryderon am afreoleidd-dra gwiriadau meddyginiaeth arferol.

### **Cyfathrebu**

Dywedodd cleifion nad oedd cael canlyniadau profion yn foddhaol. Yn aml mae'n rhaid iddynt ysgogi'r feddygfa am wybodaeth yr oeddent yn credu y dylid ei hanfon yn rhagweithiol.

Mynegodd rhai cleifion rwystredigaeth am beidio â derbyn canlyniadau profion oni bai bod problem. Gwnaethant awgrymu y byddai'n fuddiol derbyn pob canlyniad, hyd yn oed os yw'n normal, trwy e-bost neu lythyr.

Dyweddodd rhai pobl eu bod yn gorfod llenwi ffurflen ac aros am gyfnod estynedig os oedden nhw am dderbyn eu canlyniadau yn ysgrifenedig yn hytrach na dros y ffôn.

## **Profiad Cleifion**

Mae amgylchedd yr ystafell aros yn cael ei ddisgrifio fel un anghysurus. Mae codi presgripsiynau o ffenestr ochr yn Pontsenni yn cael ei ystyried yn anghyfleus.

Roedd yna alw am welliannau yng ngwasanaeth cwsmeriaid, gyda rhai yn sôn bod rhai staff y dderbynfa yn anghwrtais ac yn ddiystyriol.

Er gwaethaf problemau'r system, mynegodd llawer o gleifion foddhad â'r gofal a ddarperir gan feddygon ac ansawdd cyffredinol gofal sylfaenol unwaith y cânt eu gweld.

## **Gan bwy rydym wedi clywed**

Mae ein harolygon yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth fel ein bod yn gallu cael dealltwriaeth o brofiadau a chanfyddiadau gwahanol grwpiau o bobl yn y gymuned.

Mae'r tabl canlynol yn gipolwg o'r bobl ym Mhowys a rannodd eu barn a'u profiadau. Nid yw pobl bob amser yn dweud popeth wrthym amdanynt eu hunain pan ddônt i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau gyda ni.

**67** o bobl wedi cwblhau ein harolygon

Cawsom **0** ymateb yn Gymraeg

Cwblhaodd **67** o bobl rai neu'r cyfan o'r cwestiynau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Roedd **73%** yn fenywod a **25%** yn ddynion, roedd yn well gan **2%** beidio â dweud

**0%** wedi'i nodi fel person traws;**88%** wedi'u nodi fel heterorywiol; **1%** yn anrhywiol; **2%** deurywiol; **0%** yn hoyw; **1%** o lesbiaid ac roedd yn well gan **8%** beidio â dweud

Cyfartaledd oedran y bobl a rannodd eu barn gyda ni oedd **64**. Roedd yr ieuengaf yn **28** oed a'r hynaf yn **88** oed

Roedd **94%** yn wyn (Cymraeg, Saesneg, Albanaid, Gogledd Iwerddon, Prydain), **3%** yn Wyddelod Gwyn a **3%** Gwyn Arall

Dywedodd **42%** o bobl mai Cristnogaeth oedd eu crefydd; **2%** crefydd neu gred arall; **43%** Dim crefydd; **3%** Anffyddiaeth, **2%** Bwdhaeth; Roedd yn well gan **8%** beidio â dweud

Dywedodd **15%** o bobl fod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

Roedd **27%** o bobl yn ofalwyr

Roedd **3%** o bobl yn feichiog

O ran statws ariannol, mae gan **33%** ddigon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol ac ychydig o bethau eraill; Mae gan **45%** fwy na digon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol a swm bach o incwm gwario; Nid oes gan **1%** ddigon ar gyfer hanfodion sylfaenol ac weithiau maent yn rhedeg allan o arian; Mae gan **21%** fwy na digon ar gyfer angenrheidiau, a swm mawr o incwm gwario

## Yr hyn yr ydym wedi ei wneud â'r hyn a glywsom

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys i sicrhau eu bod yn deall beth mae pobl yn ei feddwl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu gwneud gwelliannau i wasanaethau lle mae eu hangen.

Cafwyd gweithdy ar y cyd fel y gallem adrodd ar brif themâu'r hyn a glywsom gan bobl yn ardal Aberhonddu. Roedd y sesiwn yn cynnwys staff a gwirfoddolwyr o Llais a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, Cyngor Sir a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Rhannwyd ein hadroddiad drafft gyda nhw cyn y sesiwn ac, yn ystod y cyfarfod, roeddem yn gallu tynnu sylw at rai o'r prif themâu, trafod meysydd gwaith sydd eisoes ar y gweill, a nodi rhai camau a fydd yn cael eu cymryd.

Y prif themâu a drafodwyd gennym yn y gweithdy oedd:

- Nodwyd bod pobl yn rhoi adborth cadarnhaol iawn am lawer o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae'r themâu allweddol a glywsom yn ystod y cyfnod hwn o ymgysylltu yn adlewyrchu llawer o'r hyn a glywyd yng ngweithdai Gwell Gyda'n Gilydd yr Awdurdod Lleol a gynhaliwyd ledled y sir yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'r themâu allweddol o'r gweithdai hynny ar gael ar y porth ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer Powys.<sup>2</sup>
- Anawsterau gyda mynediad a gwneud apwyntiadau gyda Meddygfa Grŵp Meddygol Aberhonddu.
- Mynediad at ofal deintyddol y GIG yn gyffredinol ac, hefyd, y pryderon ynghylch mynediad anabledd i ddeintydd y GIG yn Stryd y Castell, Aberhonddu.
- Mae'r aros yn hir am ofal wedi'i gynllunio a'r effaith y mae diffyg cyfathrebu yn dilyn atgyfeiriad yn ei chael ar gleifion. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gyflwyno gwasanaethau Aros yn lach a fydd yn cefnogi pobl yn ystod

---

<sup>2</sup> Mae'r porth hwn yn dod â phartneriaid o lywodraeth leol, y GIG a'r sector gwirfoddol ynghyd. <https://www.dweudeichdweudpowys.cymru/>

eu cyfnod aros am ofal wedi'i gynllunio.

- Anhawster cael canlyniadau yn dilyn profion diagnostig a rhannu gwybodaeth am gleifion rhwng darparwyr gofal iechyd.
- Yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu pan fydd angen iddynt gael mynediad at wasanaethau y tu allan i Bowys, gan gynnwys anawsterau gyda thrafnidiaeth a'r diffyg ystyriaeth o bellter i deithio wrth osod amseroedd apwyntiadau.
- Cefnogaeth therapi i bobl sy'n byw gyda diagnosis o glefyd Parkinson.
- Yr angen am fwy o wasanaethau iechyd meddwl a llesiant.
- Cymorth llesiant i blant a phobl ifanc. Yr angen am well ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ChatHealth sy'n darparu gwybodaeth a chymorth cyfrinachol i blant a phobl ifanc 11-18 oed.
- Yr effaith y mae recriwtio a chadw staff yn ei gael ar bobl sydd angen gwasanaethau, yn enwedig ym maes gwaith cymdeithasol a gofal cartref. Mae hyn yn flaenoriaeth i Wasanaethau Cymdeithasol Powys.
- Y galw cynyddol am gefnogaeth dirprwyaeth sy'n rhagori ar gapasiti'r tîm yng Nghyngor Sir Powys.
- Trafodaeth am addysg i'r cyhoedd a chynyddu'r ddealltwriaeth am wasanaethau gofal cymdeithasol.
- Mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo agwedd ddysgu tuag at gwynion a byddent yn annog pobl i gysylltu â'u Timau Cwynion fel y gellir mynd i'r afael â phryderon a materion unigol.

Dangosir y camau gweithredu a nodwyd yn ystod y gweithdy yn y Log Gweithredu ynghlwm.

Bydd Llais yn parhau i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn gallu monitro cynnydd a sicrhau bod unrhyw newidiadau a weithredir yn diwallu anghenion trigolion Aberhonddu a'r ardaloedd cyfagos.



**CAMAU GWEITHREDU O'R GWEITHDY  
YNGHYLCH ADRODDIAD YMGYSYLLTU BRO ABERHONDDU  
A GYNHALIWYD AR 14 MEHEFIN 2024**

<b>Gweithredu Cytunedig</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Dyddiad Dilynol</b>
<p>Llais i ddarparu taflen wybodaeth i'w wirfoddolwyr am wasanaethau y gall pobl eu cyrchu a ffyrdd i bobl allu codi eu pryderon unigol yn uniongyrchol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Powys neu Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>Taflen Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Powys wedi'i rhannu â Llais 14 Mehefin 2024.</p> <p>Adolygu mewn 3 mis (30 Medi 2024)</p>
<p>Llais i ddarparu manylion cyswllt ar gyfer Clybiau Ieuencid y mae wedi bod mewn cysylltiad â nhw â Thîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd i'w galluogi i gynnwys Clybiau Ieuencid mewn cynllun marchnata ar gyfer hyrwyddo gwasanaeth Iechyd Sgwrsio</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>Manylion cyswllt a rennir â Rheolwr Ymgysylltu BIAP 11 Gorffennaf 2024.</p> <p>Adolygu mewn 6 mis (31 Rhagfyr 2024)</p>
<p>Llais i rannu adroddiad gyda'r Rhaglen Gwella Llwybrau Canser a thynnu sylw at y sylwadau</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>Erbyn 31 Gorffennaf 2024</p>



cadarnhaol am ofal canser.		
Adborth am y timau llesiant mewn ysgolion i'w drafod gyda'r Gwasanaeth Addysg i'w ystyried.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys	<p>Mae'r sylw am dimau llesiant yn yr ysgol wedi cael ei rannu gyda'r Tîm Addysg, sydd wedi rhannu gyda'r ysgol i fyfyrion arno.</p> <p>Adolygu mewn 6 mis (31 Rhagfyr 2024)</p>
Cysylltu â'r Gwasanaeth Addysg a darparu ymateb i Llais ynglŷn â chau'r pwll hydrotherapi yn Ysgol Penmaes yn Aberhonddu.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys	<p>Erbyn 31 Gorffennaf 2024</p> <p>Mae'r sylw wedi'i rannu gyda chydweithwyr ym maes Trawsnewid Addysg, sydd wedi rhannu gyda'u cydweithwyr ADY am wybodaeth ac ystyriaeth bellach.</p>
Sylwadau cadarnhaol am Credu a Gwasanaeth Ieuencid Powys i'w rhannu gyda thimau staff perthnasol.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys	<p>Erbyn 31 Gorffennaf 2024</p> <p>Mae'r sylwadau cadarnhaol wedi'u rhannu â rheolwyr perthnasol y gwasanaethau hynny.</p>

<p>Mater o gyfathrebu gwael i'w godi gydag uwch dîm arwain yng Nghyngor Sir Powys.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys</p>	<p>Bydd y sylw am gyfathrebu gwael yn cael ei drafod gydag uwch dîm rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 15 Gorffennaf 2024. Gofynnir i reolwyr atgoffa'r holl staff o bwysigrwydd cyfathrebu da.</p> <p>Adolygu mewn 6 mis (31 Rhagfyr 2024)</p>
<p>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) i drafod adborth gyda Meddygfa Aberhonddu ynghylch anhawster cysylltu â'r feddygfa a'r sefyllfa o ran cleifion sy'n aros y tu allan i gasglu ar bresgripsiwn ym Meddygfa Pontsenni.</p> <p>Bydd Llais yn cysylltu â BIAP a'r Practis ynghylch trefnu ymweliad dilynol â'r Practis.</p>	<p>Tîm Gofal Sylfaenol BIAP</p> <p>Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Llais</p>	<p>O fewn 3 mis (erbyn 30 Medi 2024)</p> <p>O fewn 6 mis (erbyn 31 Rhagfyr 2024)</p>
<p>BIAP i rannu'r sylwadau am glefyd Parkinson i'r tîm Therapïau i ystyried y cwmpas ar gyfer ehangu cymorth therapi.</p>	<p>Pennaeth Therapïau ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol BIAP</p>	<p>Adolygu mewn 6 mis (31 Rhagfyr 2024)</p>
<p>BIAP i rannu adborth ynghylch apwyntiadau gofal eilaidd gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn Lloegr.</p>	<p>Tîm Comisiynu BIAP drwy gomisiynu rheolaidd, Perfformiad Ansawdd a</p>	<p>Adolygu mewn 6 mis (31 Rhagfyr 2024)</p>

	Chyfarfodydd Adolygu (CQPRMs)	
BIAP i ddefnyddio adborth ar apwyntiadau gofal wedi'u cynllunio i lywio eu gwaith i weithredu'r Polisi Aros yn Iach 3Ps (Profion, Atal a Pharatoi ar gyfer Gofal Cynlluniedig)	Uwch Reolwr Gofal wedi'i Gynllunio BIAP	Adolygiad 30 Ebrill 2025

## DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda - a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

## ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

## MANYLION CYSWLLT

RHANBARTH LLAIS POWYS,  
LLAWR GYNTAF, NEUADD BRYCHEINIOG,  
FFORDD CAMBRIAN,  
ABERHONDDU, POWYS,  
LD3 7HR.

FFÔN: 01874 624206  
E-BOST: POWYSENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG  
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG  
FACEBOOK: @LLAISPOWYS  
TWITTER: LLAIS\_WALES

LLAWR GYNTAF,  
TŶ LADYWELL,  
Y DRENEWYDD, POWYS,  
SY16 1JB.

FFÔN: 01686 627632